| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Ionawr 2017** |
| **Teitl :** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2017** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Ystyried y camau arfaethedig i benodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |

**Cefndir**

1. Cynhelir Etholiadau Llywodraeth Leol ar 4 Mai 2017, i ethol aelodau i Gyngor Gwynedd a holl gynghorau cymuned a thref y sir. Tra na fydd hyn yn effeithio ar Aelodau Annibynnol y Pwyllgor, bydd cyfnodau swyddi'r **Aelodau Etholedig** a'r **Aelod Pwyllgor Cymunedol** yn dod i ben. Rydym yn awyddus i fod mewn sefyllfa i benodi aelodau newydd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin 2017.

**Aelodau Etholedig**

2. Bydd angen penodi tri aelod o Gyngor Gwynedd, gyda phob aelod, heblaw'r Arweinydd ac aelodau'r Cabinet yn gymwys. Ni chaiff aelod etholedig wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol. O'r tri aelod presennol mae'r Cynghorwyr Michael Sol Owen a Lesley Day wedi gwasanaethu am un tymor, tra bod y Cyng. Eryl Jones-Williams wedi gwasanaethu am ddau.

3. Mae'r Cyngor Llawn wedi dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at holl aelodau cymwys y Cyngor pryd bynnag bydd lle gwag yn codi ar y Pwyllgor Safonau, ac i gyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes. Bydd y Grŵp Busnes yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penodiad.

4. Bwriedir felly dilyn y drefn a ddilynwyd yn y gorffennol, sef ysgrifennu at holl aelodau cymwys Cyngor Gwynedd ar ôl yr etholiad, cyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol**

5. Bydd angen penodi un aelod sy'n aelod o gyngor cymuned o fewn Gwynedd ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd. Ni chaiff aelod wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol. Mae'r aelod presennol, y Cyng. David Clay, wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor am ddau dymor.

6. Tra gwneir y penodiad gan y Cyngor, mae'n rhaid ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned ac unrhyw gymdeithasau cynghorau cymuned sy'n gweithredu o fewn yr ardal.

7. Yn unol â phenderfyniad gan y Cyngor Llawn mae'r hawl wedi ei ddirprwyo'r i'r Swyddog Monitro sefydlu panel o blith aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried ceisiadau

i fod yn Aelod Pwyllgor Cymunedol pryd bynnag y bydd angen penodi aelod newydd o'r fath.

8. Bwriedir dilyn y drefn a ddilynwyd yn y gorffennol, sef ysgrifennu yn unigol at bob cyngor cymuned i roi'r cyfle iddynt enwebu un o'i haelodau ar gyfer y swydd. Er na fydd posib enwebu aelodau tan ar ôl yr etholiad rydym yn bwriadu ysgrifennu at y clercod cyn yr etholiad fel y gallant sicrhau bod y mater yn cael ystyriaeth yng nghyfarfod cyntaf eu cynghorau. Byddwn hefyd yn cysylltu gydag Un Llais Cymru fel rhan o'r broses.

9. Bwriedir ffurfio panel o blith aelodau presennol y Pwyllgor i ystyried y ceisiadau, fel y gellir cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin.

**Argymhellion**

10. Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ar y drefn arfaethedig.